Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
Stryd Iago Isaf,
Pontarddulais, Abertawe, SA4 8JA
www.ysgolbryniago.co.uk
yggbryniago@bryniago.swansea.sch.uk
(01792) 882012
Pennaeth: Miss Nia Jones

| YSGOL GYMRAEG BRYNIAGO<br>DISGRIFIAD SWYDD | |
|---|---|
| Disgrifiad Swydd: Athro/Athrawes Dosbarth | Rhan amser, 0.7  (contract dros dro) |
| Mae'r penodiad hwn yn seiliedig ar  amodau cyfredol cyflogaeth athrawon o fewn y Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol gyfredol, y Ddeddf Addysg 1997, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro/Athrawes Gymwysedig ynghyd a deddfwriaethau addysgol cyfredol eraill. | |
| **Prif ddiben y swydd** | • Swydd Athrawes/Athro dosbarth gyda chyfrifoldeb am elfen o ddyluniad Cwricwlwm i Gymru. |
| **Addysgu a Dysgu** | • darparu awyrgylch addysgu a dysgu sy'n symbylgar, atyniadol, diogel a chynhwysol<br>• ymgorffori gweledigaeth ac amcanion yr ysgol ar draws y cwricwlwm<br>• hyrwyddo cynnydd a lles cyffredinol disgyblion unigol ac unrhyw ddosbarth neu grŵp o ddisgyblion a neilltuwyd i ddeilydd y swydd;<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o holl ofynion Cwricwlwm i Gymru<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o addysgeg<br>• nodi'n glir yr amcanion addysgu a manylu a chynllunio'n drylwyr wrth sicrhau darpariaeth<br>• gosod targedau realistig, cyraeddadwy a heriol ar gyfer disgyblion unigol<br>• gosod disgwyliadau uchel ac anelu at sicrhau  safonau cyflawniad uchel<br>• gwahaniaethu er mwyn ateb gofynion pob disgybl – sef i ddarparu dysgu gynhwysol<br>• annog y disgyblion i fyfyrio a siarad am eu dysgu<br>• sicrhau fod asesu ar gyfer dysgu yn rhan annatod o'r addysgu a'r dysgu |

| | |
|---|---|
| | • monitro ac ymyrryd yn bwrpasol i sicrhau addysgu a disgyblaeth effeithiol<br>• defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu er mwyn bodloni anghenion unigol disgyblion<br>• hybu medrau allweddol a sicrhau bod y disgyblion yn caffael ac yn atgyfnerthu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r pwnc/maes a addysgir gan sicrhau bod y medrau allweddol yn cael eu haddysgu ar draws y Cwricwlwm.<br>• gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol<br>• cynllunio a threfnu addysgeg sy'n datblygu sgiliau cyfannol disgyblion<br>• nodi disgyblion sydd ag ADY. neu ddisgyblion galluog a thalentog a darparu ar gyfer eu hanghenion;<br>• asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn unol a'r egwyddorion cynnydd<br>• gwerthuso'r addysgu yn feirniadol er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant<br>• trefnu cymorthyddion dysgu, rhieni ac oedolion eraill yn y dosbarth yn enwedig wrth gefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg<br>• gweithredu yn unol a pholisiau a dulliau gweithredu'r ysgol; cyd-weithio'n effeithiol gydag eraill a gosod esiampl drwy ymagweddiad personol a phroffesiynol |
| **Dyletswyddau Eraill** | • sicrhau cyfrifoldeb bugeiliol dros ddisgyblion<br>• llunio cofnodion ac adroddiadau ar anghenion personol a chymdeithasol disgyblion;<br>• cyfathrebu ac ymgynghori â rheini disgyblion;<br>• cyfathrebu a chydweithredu â rhan-ddeiliaid a/neu asiantaethau allanol<br>• cyfranogi mewn cyfarfodydd a drefnwyd at unrhyw un o'r dibenion a nodwyd uchod;<br>• cynorthwyo â gweithgareddau all-gyrsiol oddi fewn i nifer yr oriau cyfeiriedig ar gyfer athrawon. |

| | |
|---|---|
| **Asesiadau ac Adroddiadau** | • darparu neu gyfrannu at asesiadau llafar ac ysgrifenedig ac adroddiadau i ddisgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn ol yr angen;<br>• ymateb i a monitro gwaith y disgyblion a gosod targedau ar gyfer cynnydd;<br>• asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion yn systematig a chofnodi cryfderau a gwendidau, cynnwys yr wybodaeth asesu yn y cynllunio a nodi cyflawniadau'r disgyblion;<br>• paratoi a chyflwyno adroddiadau yn llawn gwybodaeth i rieni a/neu asiantaethau cysylltiedig |
| **Arfarnu** | • cyfranogi mewn trefniadau a wnaed yn unol â rheoliadau a wnaed ar gyfer arfarnu perfformiad deilwyr y swydd ac athrawon eraill;<br>• derbyn a rhoi aborth adeiladol er mwyn gyrru gwellaint parhaus<br>• ymgymryd a bod yn ran o brosesau hunan werthuso'r ysgol |
| **Datblygiad Proffesiynol -** | • Adolygu, sefydlu, hyfforddi a datblygu pellach<br>• cyfranogi mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol fel athro/athrawes gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n<br>ceisio cwrdd ag anghenion a nodwyd mewn amcanion arfarnu neu mewn datganiadau arfarnu;<br>• yn achos athro/athrawes ar gyfnod sefydlu dylid cwrdd a gofynion y rheoliadau sefydlu perthnasol<br>• ymrwymo'n llawn i'r safonau proffesiynol<br>• cydweithio'n effeithiol o fewn a thu hwnt i'r ysgol |
| **Disgyblaeth, Iechyd a Diogelwch** | • cynnal trefn a disgyblaeth dda ymysg y disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch pan fyddant â hawl i fod ar eiddo'r ysgol a phan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar safle'r ysgol.<br>• Cydymffurfio a pholisiau Iechyd a Diogelwch yr ysgol a'r rheolau sydd ymhlyg â'r Llawlyfr Staff |

<table>
<tr><td>Cyfarfodydd Staff</td><td><ul><li>cyfranogi mewn cyfarfodydd yn yr ysgol sy’n ymwneud â’r cwricwlwm ar gyfer yr ysgol neu weinyddiaeth neu drefniadaeth yr ysgol, gan gynnwys trefniadau bugeiliol;</li></ul></td></tr>
<tr><td>Rheoli</td><td><ul><li>cydlynu neu reoli gwaith staff cefnogi sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda deilydd y swydd neu iddo/iddi;</li><li>cymryd rhan wrth adolygu, datblygu a rheoli gweithgareddau sy’n ymwneud â’r cwricwlwm, Cynllun Datblygu Ysgol, hunanarfarnu, trefniadaeth a swyddogaethau bugeiliol/eraill yn yr ysgol;</li></ul></td></tr>
<tr><td>Gweinyddiaeth</td><td><ul><li>cyfranogi mewn tasgau gweinyddol a threfniadol sy’n gysylltiedig â dyletswyddau o’r fath fel a ddisgrifiwyd uchod</li><li>mynychu gwasanaethau, cofrestru presenoldeb disgyblion a goruchwylio disgyblion yn ôl y galw</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd deilydd y swydd a gyflogir dan Amodau Gwasanaeth Athrawon yn perfformio, yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol y gellir ei roi iddynt o bryd i’w gilydd gan yr awdurdod neu gan bennaeth unrhyw ysgol y bydd gofyn iddo weithio fel athro/athrawes ynddi, gall dyletswyddau penodol felly gael eu rhoi i ddeilydd y swydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cedwir yr hawl gan y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu i wneud newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad hon er mwyn adlewyrchu’r newidiadau yng ngofynion y swydd drwy ymgynghori â chi.</td></tr>
</table>